

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 16 Gorffennaf 2024

## **SL(6)502 – [Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwr at Gostau Byw \(Cymru\) 2024](#)**

### **Gweithdrefn: Gwneud Negyddol**

Mae Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfyrrwr at Gostau Byw (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o fenthyciad at gostau byw (a elwir hefyd yn fenthyciad cynhaliaeth) myfyriwr israddedig llawnamser ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/2025 o dan amgylchiadau penodol.

Bydd y dilead yn dod i rym o'r diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir ad-daliad benthyciad cyntaf y myfyriwr. Ni fydd hyn ar ffurf cyfandaliad arian parod; yn hytrach, bydd balans benthyciad unigolyn yn cael ei ostwng yn ôl y swm priodol y diwrnod ar ôl i ad-daliad cyntaf y benthyciwr gael ei wneud.

Dim ond unwaith y gall myfyriwr gael dilead rhannol; ni all gael dilead rhannol mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2024/25 os yw eisoes wedi cael dilead mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol. Ni fydd gan fyfyriwr hawl i gael dilead rhannol os oes unrhyw gosbau neu daliadau heb eu talu neu os yw'n torri cytundeb ei fenthyciad neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Mae eglurhad technegol hefyd yn cael ei wneud yn y Rheoliadau hyn i eithrio gordaliadau o ystyr Atebolrwydd sydd heb ei Dalu (y cyfanswm yr ystyrir ei fod yn ad-daladwy gan y benthyciwr ar y dyddiad ad-dalu). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro (ym mharagraff 4.5) y bydd yr eglurhad hwn "yn ei gwneud yn glir y bydd unrhyw ordaliad o fenthyciad cynhaliaeth yn cael ei drin ar wahân i brif swm y benthyciad y mae hawl gan fenthyciwr iddo, ac o ganlyniad na fydd yn rhan o'r cyfanswm a ddefnyddir wrth gymhwyso dilead rhannol."

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

**Fe'u gwnaed ar:** 24 Mehefin 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 26 Mehefin 2024

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2024

